

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**ADRODDIAD I'R PWYLLGOR DEDDFAU****Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Costau Teithio a Dileu Taliadau) (Diwygio)
(Cymru) 1999****Cefndir**

1. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gyfrifol am yr is-ddeddfwriaeth sy'n sefydlu cymhwyster i gael budd-daliadau o dan Gynllun Incwm-lsel yr NHS. Mae'r rhain yn cynnwys presgripsiynau am ddim a chymorth ar gyfer costau teithio i'r ysbyty.
2. Defnyddiwyd Credyd Teulu a'r Lwfans Gweithio i'r Anabl i ddiffinio cymhwyster i gael y budd-daliadau NHS hyn. Felly, gan fod Credyd Treth i Deuluoedd mewn Gwaith a Chredyd Treth i Berson Anabl yn disodli Credyd Teulu a Lwfans Gweithio i'r Anabl, mae angen diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Costau Teithio a Dileu Taliadau) 1988 fel bod cyfeiriadau at fudd-daliadau Credyd Teulu a'r Lwfans Gweithio i'r Anabl yn cael eu disodli gan gyfeiriadau at y budd-daliadau newydd.
3. Mae angen hefyd newid y cyfeiriadau at grantiau myfyrwyr i fenthyciadau i fyfyrwyr hefyd. Er bod cyfrifo'r cymhwyster i gael presgripsiynau rhad ac am ddim i fyfyrwyr wedi cymryd i ystyriaeth argaeledd benthyciadau i fyfyrwyr, mae bodolaeth barhaol elfen grant wedi golygu na fu angen unrhyw newid yn y Rheoliadau hyd yn hyn. Er hynny, gan nad yw grantiau bellach ar gael o gwbl bellach, diwygiwyd y Rheoliadau i gynnwys cyfeiriad at fenthyciadau i fyfyrwyr.
4. Gan fod Rheoliadau 1988 yn gymwys yng Nghymru a Lloegr, a chan fod y diwygiadau y mae eu hangen ar gyfer Cymru yr un fath yn union â'r rhai ar gyfer Lloegr, gwnaed y diwygio ar gyfer Cymru drwy fewnosod darpariaeth (rheoliad 2(5)) yn Rheoliadau 1988 i'r perwyl bod diwygiadau a wneir ar gyfer Lloegr yn cael effaith yng Nghymru hefyd.
5. Mae'r Rheoliadau dan sylw ar ffurf ddwyieithog ac eithrio bod y mewnosodiadau testunol yn Saesneg yn unig, gan fod y rheoliadau diwygiedig yn Saesneg yn unig.

Rheol Sefydlog 11.5

6. Nodwyd un pwynt o fewn telerau RhS 11.5 fel mater y gall fod angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddo. Mae hyn yn ymwneud â'r ffaith y dywedir

bod y Rheoliadau'n dod i rym ar 5 Hydref, sef dyddiad eu gwneud.

7. O dan adran 4(a) o Ddeddf Dehongli 1978 (wrth ei darllen mewn cysylltiad ag adran 23 (1) o'r Ddeddf honno) daeth y Rheoliadau i rym ar ddechrau 5 Hydref. Felly, a bwrw bod y Rheoliadau heb eu llofnodi tan rywbryd yn ystod y dydd ar y 5 Hydref, yn dechnegol mae yna ran o'r diwrnod hwnnw y bydd effaith

ôl-weithredol iddynt. Gan hynny, am nad yw'n ymddangos bod y pwerau galluogi'n rhoi awdurdod pendant ar gyfer hyn, mae'r Pwyllgor, o dan delerau RhS 11.5(iii), yn gorfod gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddo.

8. Cyn cyflwyno Adroddiad o'r fath, rhaid i'r Pwyllgor, o dan delerau RhS 11.4, roi gwybod i'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol am y bwriad hwn. Dylid rhoi cyfle i'r Ysgrifennydd Cynulliad roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, ac ateb unrhyw gwestiynau a godwyd ganddo, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig.
9. Os bydd y Pwyllgor yn adrodd yn ffurfiol ar y mater, efallai y byddai'n briodol nodi yn yr Adroddiad fod y Pwyllgor yn derbyn mai'r canlyniad fyddai cydnabod yr angen i sicrhau na fydd y sefyllfa hon yn digwydd yn neddfwriaeth y dyfodol.
10. Heblaw'r un mater hwn o dan RhS 11.5, nid oes angen tynnu sylw at unrhyw faterion drafftio cyffredinol.

JOHN H TURNBULL

Cynghorydd Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfau

8 Hydref 1999

Cyf: LAD 01-01-013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru		National Assembly for Wales
OFFERYNNAU STATUDOL		STATUTORY INSTRUMENTS
1999 Rhif (Cy.)		1999 No. (W.)

**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

**NATIONAL HEALTH
SERVICE, WALES**

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol
(Costau Teithio a Dileu Taliadau) (Diwygio)
(Cymru) 1999**

**The National Health Service
(Travelling Expenses and Remission
of Charges) Amendment (Wales)
Regulations 1999**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Effaith y Rheoliadau hyn yw diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Costau Teithio a Dileu Taliadau) 1988 ("y prif Reoliadau") sy'n darparu ar gyfer dileu ac ad-dalu taliadau penodol a fyddai'n daladwy fel arall o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 ac ar gyfer talu costau teithio a dynnir drwy fynd i ysbyty. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud i'r diwygiadau testunol i'r prif Reoliadau, sy'n cael eu gwneud gan Reoliadau Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Costau Teithio a Dileu Taliadau) 1999 ac sy'n ymestyn dros Loegr, gael effaith yng Nghymru.

These Regulations have effect to amend the National Health Service (Travelling Expenses and Remission of Charges) Regulations 1988 ("the principal Regulations") which provide for the remission and repayment of certain charges which would otherwise be payable under the National Health Service Act 1977 and for the payment of travelling expenses incurred in attending a hospital. The textual amendments of the principal Regulations which are made by the National Health Service (Travelling Expenses and Remission of Charges) Amendment Regulations 1999 and which extend to England are made to have effect in Wales.

<p>Mae'r diwygiadau yn mewnosod diffiniad o "amount withdrawn" ac yn rhoi diffiniad o "disabled person's tax credit" yn lle'r diffiniad o "disability working allowance" a hefyd yn rhoi diffiniad o "working families' tax credit" yn lle'r diffiniad o "family credit".</p>		<p>The amendments insert a definition of "amount withdrawn" and substitute the definition of "disability working allowance" with a definition of "disabled person's tax credit" and also substitute the definition of "family credit" with a definition of "working families' tax credit".</p>
<p>Mae'r diwygiadau yn newid rheoliad 4 o'r prif Reoliadau i gymryd i ystyriaeth y newidiadau sy'n digwydd ar 5 Hydref 1999 yn y systemau treth incwm a nawdd cymdeithasol pan ddisodlir credyd teulu a lwfans gweithio i'r anabl gan gredyd treth teuluoedd mewn gwaith a chredyd treth person anabl.</p>		<p>The amendments alter regulation 4 of the principal Regulations to take account of the changes occurring on 5th October 1999 in the income tax and social security systems when family credit and disability working allowance are replaced with working families' tax credit and disabled person's tax credit.</p>
<p>Maent yn diwygio hefyd y diffiniad o "voluntary payment" y cyfeirir ato yn y cofnod ynglŷn â "regulation 65" yn Nhabl A o Ran I o Atodlen 1 i'r prif Reoliadau i gymryd i ystyriaeth y newidiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer cynhaliath i fyfyrwyr drwy ychwanegu cyfeiriad at fenthyciad myfyriwr.</p>		<p>They also amend the definition of "voluntary payment" referred to in the entry relating to "regulation 65" in Table A of Part I of Schedule 1 to the principal Regulations to take account of the changes in maintenance provision for students by adding reference to a student's loan.</p>
<p>Mae'r rheoliadau'n cynnwys darpariaeth drosiannol sy'n darparu bod yr hawl i gael dilead o'r taliadau a sefydlwyd yn rhinwedd rheoliad 4 (c), (d), (g) neu (h) o'r prif Reoliadau yn parhau tra bod yr hawl i gael credyd teulu neu lwfans gweithio i'r anabl neu daliadau o'r budd-daliadau hynny yn parhau.</p>		<p>The regulations contain a transitional provision that provides that the entitlement to remission of charges established by virtue of regulation 4 (c), (d), (g) or (h) of the principal Regulations shall continue whilst entitlement to or payment of family credit or disability working allowance continues.</p>

**OFFERYNNAU
STATUDOL**

**STATUTORY
INSTRUMENTS**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
1999 Rhif (Cy.)**

**National Assembly for Wales
1999 No. (W.)**

**Y GWASANAETH
IECHYD GWLADOL,
CYMRU**

**NATIONAL HEALTH
SERVICE, WALES**

**Rheoliadau'r
Gwasanaeth Iechyd Gwladol
(Costau Teithio a Dileu Taliadau)
(Diwygio) (Cymru) 1999**

**The National Health Service
(Travelling Expenses and Remission
of Charges) Amendment (Wales)
Regulations 1999**

<p><u>Wedi'u gwneud</u></p> <p><u>Yn dod i rym</u> 5 Hydref 1999</p>		<p><u>Made</u></p> <p><u>Coming into force</u> 5th October 1999</p>
<p>Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i Ysgrifennydd Gwladol Cymru gan adrannau 83A, 126(4) a 128(1) o Ddeddf Gwasnaeth Iechyd Gwladol 1977 (<i>l</i>) a phob per arall sy'n ei</p>		<p>The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred on the Secretary of State for Wales by sections 83A, 126(4) and 128(1) of the National Health Service Act 1977 (a) and of all other powers enabling him in that behalf and now vested in the</p>
<p>alluogi yn y cyswllt hwnnw ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru <i>l</i>:</p>		<p>National Assembly for Wales (a):</p>
<p>Enwi, cychwyn a dehongli</p>		<p>Citation, commencement and interpretation</p>
<p>1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Costau Teithio a Dileu Taliadau) (Diwygio) (Cymru) 1999 a deuant i rym ar 5 Hydref 1999.</p> <p>(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Costau Teithio a Dileu Taliadau) 1988 (<i>b</i>).</p>		<p>1.-(1) These Regulations may be cited as the National Health Service (Travelling Expenses and Remission of Charges) Amendment (Wales) Regulations 1999 and shall come into force on 5th October 1999.</p> <p>(2) In these Regulations, "the principal Regulations" means the National Health Service (Travelling Expenses and Remission of Charges) Regulations 1988 (b).</p>

<p>(3) Bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru'n unig.</p>		<p>(3) These Regulations shall apply to Wales only.</p>
<p>Diwygio'r prif Reoliadau</p>		<p>Amendment of the principal Regulations</p>
<p>2. Ar ddiwedd rheoliad 2 o'r prif Reoliadau mewnosodir y paragraff canlynol –</p>		<p>2. At the end of regulation 2 of the principal Regulations there shall be inserted the following paragraph -</p>
<p>" (5) In respect of regulations 2 and 4 and Schedule 1 the amendments made by the National Health Service (Travelling Expenses and Remission of Charges) Amendment Regulations 1999 (c)(c) shall also have effect in Wales."</p>		
<p>Darpariaeth Drosiannol</p>		<p>Transitional Provision</p>
<p>3.-(1) Lle'r oedd hawl gan berson yn union cyn 5ed Hydref 1999 i gael dilead o daliadau neu daliad o gostau teithio yn rhinwedd rheoliad 4 (c) neu (d) o'r prif Reoliadau (dilead neu daliad wrth gyfeirio at hawl i gael gredyd teulu), neu yn rhinwedd rheoliad 4(g) neu (h) o'r prif Reoliadau (dileu neu dalu wrth gyfeirio at hawl i gael lwfans gweithio i'r anabl), bydd yr hawl honno'n parhau tra bydd credyd teulu neu lwfans gweithio i'r anabl, fel y bo'r achos, yn parhau i gael ei dalu.</p>		<p>3.-(1) Where immediately before 5th October 1999 a person was entitled to remission of charges or payment of travelling expenses by virtue of regulation 4(c) or (d) of the principal Regulations (remission or payment by reference to entitlement to family credit), or by virtue of regulation 4(g) or (h) of the principal Regulations (remission or payment by reference to entitlement to disability working allowance), that entitlement shall continue for so long as family credit or disability working allowance, as the case may be, remains in payment.</p>
<p>Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (l).</p>		<p>Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998^(a).</p>
<p>1999</p>		<p>1999</p>

Y Llywydd		The Presiding Officer

